Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio reolaidd i blant yng Nghymru a’r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B i fabanod newydd-anedig: 2025 a 2026

## Pecyn Cymorth i Ymarferwyr Gofal Iechyd

**Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i gefnogi ymarferwyr gofal iechyd gyda'r newidiadau i'r amserlen imiwneiddio plant.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg hefyd. This information is available in English.

**Mae'r amserlen imiwneiddio plant a'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B i fabanod newydd-anedig yng Nghymru yn newid yn 2025 a 2026.**

**Mae'r newidiadau hyn yn dilyn argymhellion gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI), sef pwyllgor cynghori gwyddonol arbenigol llywodraeth y DU ar frechu ac imiwneiddio. Mae'r argymhellion yn dilyn y penderfyniad masnachol i roi'r gorau i gynhyrchu’r brechlyn Menitorix® (Hib/MenC).**

.

## Beth sydd angen i mi ei wybod?

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd amser i ddeall y newidiadau, i rannu gwybodaeth gyda chydweithwyr, ac i wybod ble i ddod o hyd i adnoddau pellach. Mae hyn er eich gwybodaeth eich hun ac i gefnogi eich cleifion. Bydd hyn yn eich helpu i roi brechiadau’n hyderus ac ymateb i gwestiynau.

**Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio plant yng Nghymru o 1 Gorffennaf 2025:**

- Mae’r brechlyn Menitorix© (Hib/MenC) wedi'i dynnu'n ôl o'r amserlen imiwneiddio reolaidd.
- Mae amseriadau'r brechlynnau **Niwmococol (PCV)** a **Meningococol grŵp B (MenB)** wedi newid.
    - Rhoddir y brechlyn PCV i fabanod 16 wythnos oed yn lle 12 wythnos oed.
    - Rhoddir y brechlyn MenB i fabanod 12 wythnos oed yn lle 16 wythnos oed.
- Mae'r dos hepatitis B unfalent a gynigir i fabanod 12 mis oed fel rhan o’r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B i fabanod newydd-anedig yn cael ei ddisodli gan ddos ychwanegol o **DTaP/IPV/Hib/HepB (6-mewn-1)** pan fydd plant bach yn 18 mis oed (gweler isod).

**Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant yng Nghymru o 1 Ionawr 2026:**

- Bydd apwyntiad brechu newydd yn cael ei ychwanegu at yr amserlen imiwneiddio plentyndod pan fydd plant bach yn 18 mis oed.
- Rhoddir dos ychwanegol o’r brechlyn **6-mewn-1** sy'n cynnwys Hib yn yr apwyntiad 18 mis newydd hwn.
- Bydd yr ail ddos o'r brechlyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela **(MMR)** yn cael ei roi yn gynt yn ystod yr apwyntiad 18 mis newydd yn hytrach nag i blant 3 oed a 4 mis.

## Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

I gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn, ewch i'r adnoddau defnyddiol canlynol a gosod nod tudalen i chi allu cyfeirio atynt yn gyflym os oes angen:

### Adnoddau Llywodraeth Cymru:

- Darllenwch Gylchlythyr Iechyd Cymru sy'n amlinellu'r polisi ar gyfer y newidiadau hyn yng Nghymru. Gweler **Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B (gwefan allanol)**

### Datganiadau a chofnodion cyfarfodydd JCVI:

- **Changes to the childhood immunisation schedule: JCVI statement - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**

- Gweler **cofnodion cyfarfod JCVI ar 02/ 2025 (gwefan allanol - Saesneg yn unig)** am newidiadau a argymhellir i'r brechlynnau PCV a MenB.

### Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru:


**Tudalennau gwe:**


- Ewch i'r dudalen we bwrpasol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, lle byddwch yn dod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y newidiadau. Ewch i **newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant - Gwybodaeth i weithwyr iechyd**

- Cyfeiriwch rieni, gwarcheidwaid a theuluoedd at y dudalen we **icc.gig.cymru/brechlynnau/ccs-gwybodaeth-ir-cyhoedd**, lle gallant ddarllen am y newidiadau, dysgu rhagor am gymhwysedd a gweld detholiad o gwestiynau cyffredin.

**Dogfennau ac offer:**

- Mae offer cymhwysedd brechu ar gael i'ch cynorthwyo i wybod pa frechiadau y mae plant i fod i'w cael a phryd. Mae'r rhain ar gael yn **Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant - Gwybodaeth i weithwyr iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Gallwch chi gadw'r rhain ar eich bwrdd gwaith a'u hargraffu.




- Gweler yr **amserlen imiwneiddio arferol gyflawn wedi'i diweddaru ar gyfer Cymru o fis Gorffennaf 2025**

- Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B i fabanod newydd-anedig ar gael yma **Brechlyn Hepatitis B - Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Yma gallwch ddod o hyd i daflen wybodaeth y gellir ei lawrlwytho sy'n manylu ar y newidiadau i'r rhaglen o 1 Gorffennaf 2025.


- Gweld a lawrlwytho'r Ffurflen Cofnodi Imiwneiddio Heb ei Drefnu wedi'i diweddaru yn **Adnoddau brechlyn ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol** (gweler 'System iechyd plant'). Mae'r Ffurflen Cofnodi Imiwneiddio Heb ei Drefnu ar gyfer practisiau meddygon teulu wedi'i diweddaru i'w defnyddio rhwng 1 Gorffennaf 2025 a 31 Rhagfyr 2025. Bydd fersiwn newydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl 31 Rhagfyr 2025.

## Gwybodaeth bwysig – galwad i weithredu

Oherwydd oedi anochel, ni fydd system TG y GIG (CYPrIS) a ddefnyddir i drefnu imiwneiddiadau rheolaidd i blant yn cael ei diweddaru'n llawn mewn pryd ar gyfer y newidiadau ar 1 Gorffennaf 2025.

Mae'n bwysig bod pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a staff sy'n cefnogi'r amserlen imiwneiddio plant yn ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ac yn gwybod beth sydd angen i chi ei wneud.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **Newidiadau i'r amserlen imiwneiddio i blant - Gwybodaeth i weithwyr iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru** (gweler 'llythyr eglurhaol CYPrIS') ac edrych ar y set sleidiau bwrpasol wedi'i recordio **Newidiadau i'r amserlen frechu reolaidd i blant: Oedi dros dro i'r system amserlennu TG. (CYPrIS)**


HYSBYSIAD PWYSIG – DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA

Newidiadau i'r Amserlen Imiwneiddio Reolaidd i Blant (Cymru)
Yn weithredol o ddydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025

O 1 Gorffennaf 2025, bydd newidiadau sylweddol i'r amserlen imiwneiddio reolaidd i blant yng Nghymru. Gallwch ddarllen polisi Llywodraeth Cymru yma: Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B (WHC/2025/019) | LLYW.CYMRU

PWYSIG: Oherwydd oedi anochel, ni fydd system TG y GIG (CYPrIS) a ddefnyddir i drefnu imiwneiddiadau rheolaidd i blant yn cael ei diweddaru'n llawn mewn pryd ar gyfer y newidiadau ar 1 Gorffennaf 2025.

Mae'n debygol y bydd yr oedi hwn yn parhau am ychydig fisoedd. Byddwch yn cael gwybod cyn gynted ag y bydd y system TG wedi'i diweddaru.

Bydd hyn yn golygu:

- Bydd llythyrau gwahoddiad CYPrIS i rieni yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio
- Bydd ffurflenni CYPrIS wedi'u hamserlennu a anfonir at bractisiau meddygon teulu hefyd yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio, h.y. gweinyddu PCV yn 12 wythnos oed yn lle MenB (gweler y senarios isod).
- Ar ôl 1 Gorffennaf 2025, ni fydd CYPrIS yn dangos y dylai plant a anwyd cyn 1 Gorffennaf 2024 sy'n mynd i apwyntiad imiwneiddio yn 12 mis oed dderbyn y brechlyn 6-mewn-1 yn lle Hib/MenC.

Felly mae'n hanfodol bod pob brechwr yn gwbl ymwybodol o'r amserlen newydd ac yn ei dilyn â llaw nes bod y system wedi'i diweddaru.

Beth sydd angen i mi ei wneud fel brechwr?

| Rhif | Senario | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1 | Plentyn sy'n cael imiwneiddiadau yn 12 wythnos oed cyn 1 Gorffennaf 2025 | Dim newid - parhau â'r amserlen bresennol. Yn 12 wythnos oed: Rhowch y brechlynnau 6-mewn-1, PCV, a Rotafeirws. Yn 16 wythnos oed: Rhowch y brechlynnau 6-mewn-1 a MenB |
| 2 | Plentyn sy'n cael imiwneiddiadau yn 12 wythnos oed ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2025 | Dilynwch yr amserlen newydd. Yn 12 wythnos oed: Rhowch y brechlynnau 6-mewn-1, MenB*, a Rotafeirws. Yn 16 wythnos oed: Rhowch y brechlynnau 6-mewn-1 a PCV |
| 3 | O 1 Gorffennaf 2025, ni fydd y brechlyn Hib/MenC ar gael mwyach i blentyn a aned cyn 1 Gorffennaf 2024 sy'n mynd i apwyntiad imiwneiddio yn 12 mis oed. | Rhowch y brechlyn 6-mewn-1 yn lle** (ynghyd â'r brechlynnau PCV, MMR a MenB pan fydd y plentyn yn un oed). Yn EMIS dylid codio hyn fel 3ydd dos 6-mewn-1 (EMISNQTH31) ac yn VISION dylid codio hyn fel 3ydd dos o Difftheria/Tet/Pert/Polio/Hib/HepB. Cofnodwch fel yr ail 3ydd dos yng nghofnod y plentyn. |

Fersiwn 1 | Mehefin 2025
Rhaglen Frechlyn Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 1

**Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth:**

- Dysgwch am y newidiadau drwy gyrchu amrywiaeth o sesiynau codi ymwybyddiaeth pwrpasol, yn cynnwys:

  - **Recordiad a sleidiau o'r 'Gweminar Holi ac Ateb'**

  - **Recordiadau a sleidiau o sesiynau 'Cinio a Dysgu' pwrpasol** wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn cynnwys nyrsys practis, bydwragedd, pediatregwyr ac ymwelwyr iechyd.

  - **Setiau sleidiau wedi'u recordio**, yn cynnwys:

  - Set sleidiau wedi'i recordio Rhif 1 (20/03/2025): *Cyflwyniad i'r Newidiadau Arfaethedig i'r Amserlen Imiwneiddio Reolaidd i Blant*

  - Set sleidiau wedi'i recordio Rhif 2 (17/04/2025): *Newid i'r amserlen ar gyfer rhoi'r Brechlyn Cyfun Niwmococol (PCV) a MenB (Brechlyn Meningococol B)*

  - Set sleidiau wedi'i recordio Rhif 3 (05/06/25): *Rhif 3 mewn cyfres: Newidiadau i'r amserlen frechu yn ystod plentyndod arferol - Oedi dros dro gyda'r system amserlennu TG (CYPrIS)*



Mae'r holl adnoddau ar gael yma **adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

## Adnoddau Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA):

**Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y cyngor mewn perthynas â Hib/MenC (Menitorix®) yn yr adnoddau, canllawiau ac offer UKHSA yn wahanol i bolisi Cymru.** Mae GIG Cymru yn rhoi 'stop llym' ar waith. Felly, o 1 Gorffennaf 2025, ni fydd Hib/MenC (Menitorix®) bellach wedi'i gynnwys yn yr amserlen imiwneiddio i blant yng Nghymru. Ystyriwch **Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio reolaidd i blant ac i'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B (WHC/2025/019)(gwefan allanol)** a **Llwybr imiwneiddio detholus newyddenedigol ar gyfer Hepatitis B (yn weithredol o 1 Gorffennaf 2025) (gwefan allanol)** wrth gyfeirio at yr adnoddau isod.

- Darllenwch y penodau perthnasol yn y Llyfr Gwyrdd **Immunisation against infectious disease (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**
- Mae'r canllawiau**childhood schedule changes from 1 July 2025: information for healthcare practitioners - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)** yn darparu gwybodaeth fanwl am senarios posibl sy'n ymwneud â'r newidiadau hyn, yn cynnwys gweinyddu anfwriadol a brechu'n hwyr.
- Mae **childhood immunisation eligibility calculator - Health Publications (gwefan allanol - Saesneg yn unig)** ar gael i'ch helpu i ddeall a chynllunio pa frechlynnau sydd angen eu rhoi a phryd.
- Dylid rheoli plant sydd â statws imiwneiddio ansicr neu anghyflawn yn unol â **vaccination of individuals with uncertain or incomplete immunisation - GOV.UK (gwefan allanol – Saesneg yn unig)**
- Canllawiau ychwanegol:
  - **Hexavalent combination vaccine: programme guidance - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**
  - **Pneumococcal vaccination: information for healthcare practitioners - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**
  - **Meningococcal B: vaccine information for healthcare professionals - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**
  - **Childhood immunisation: quick guide for parents of premature babies - GOV.UK (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**



## Y Fframwaith Cyfreithiol

- Templedi PGD **Patient Group Directions (PGD) - Welsh Medicines Advice Service (gwefan allanol - Saesneg yn unig)** . Sylwch nad yw'r templedi PGD cenedlaethol hyn yn gyfreithlon i'w defnyddio nes iddynt gael eu haddasu a'u hawdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.



## Gwiriwch eich gwybodaeth: hyfforddiant a dysgu

- Rhoddir setiau sleidiau sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant imiwneiddio a newidiadau i'r amserlen imiwneiddio plant ar y **dudalen Adnoddau a Digwyddiadau hyfforddi.**
- Os ydych chi newydd gofrestru i imiwneiddio, bydd angen i chi gwblhau'r rhaglen Imiwneiddio ar gyfer imiwneiddwyr newydd, sydd ar gael yma **e-ddysgu imiwneiddio - Iechyd Cyhoeddus Cymru** a'r **offeryn asesu cymhwysedd (gwefan allanol - Saesneg yn unig)**

## Beth arall sydd angen i mi ei wneud?

**Rhannwch yr hyn a ddysgwyd gyda phawb sy'n ymwneud â'r rhaglen**, yn cynnwys staff derbynfa sy'n trefnu apwyntiadau. Ystyriwch ddefnyddio'r setiau sleidiau ynghylch y newidiadau i'r amserlen imiwneiddio plant i gynnal sesiwn hyfforddi a gwybodaeth i gydweithwyr.

**Archebu neu lawrlwytho adnoddau *am ddim:***
I archebu adnoddau ***am ddim*** fel posteri a thaflenni gwybodaeth i gleifion i gefnogi clinigau brechu, ewch i: **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

## Ble arall alla i ddod o hyd i gefnogaeth?

I gael cysylltiadau brechlynnau yn eich bwrdd iechyd, ewch i: **Manylion cyswllt Tîm Brechu'r Bwrdd Iechyd**



© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru